NODIADAU AR Y WEITHDREFN AR GYFER SIARAD CYHOEDDUS YNG CYFARFODYDD Y PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGIAD

Cyflwyniad
Mae'r nodiadau canlynol wedi eu llunio i'ch helpu i benderfynu a ydych yn gymwys i siarad mewn Pwyllgor ac os felly, sut y dylech fynd o'i chwmpas os ydych am wneud hynny (sylwch mai pwerau a ddirprwyir sy'n trin tua 95% o'r ceisiadau ac nis adroddir i'r Pwyllgor).

Y Cyfarfodydd
Fel arfer cynhelir y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn y Swyddfeydd Dinesig, Angel Street, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB bob chweched dydd Mawrth. Anfonir yr holl geisiadau a drafodir yn y Pwyllgor mewn adroddiad sydd ar gael o flaen llaw (y dydd Llun cyn cyfarfod y Pwyllgor). Argymhellir nad ydych yn cyrraedd yn hwyrach nag 20 munud cyn dechrau'r cyfarfod, sef 10am. Dyweda glerc y pwyllgor wrthych lle y dylech eistedd ac ateb unrhyw gwestiynau. **Dylai siaradwyr roi gwybod i'r Cyngor o flaen llaw os oes ganddynt anghenion arbennig.**

Cyfarfodydd gwe-ddarlledu
Dylai siaradwyr ddeall y darlledir rhai cyfarfodydd yn fyw ar wefan y Cyngor ac y clywir eu llais fel rhan o we-ddarllediad byw o'r cyfarfod. .

Ydych chi'n gymwys?
Dylech fod yn un o'r canlynol:-
· Cynghorydd y Cyngor Bwrdeistref, nad ydych ar y Pwyllgor Rheoli Datblygu, y mae'r cais ynghylch tir yn eich ward, neu Aelod Cabinet;
· Gwrthwynebydd i gais, neu gynrychiolydd drosto, sydd wedi cyflwyno gwrthwynebiad yn ysgrifenedig yn manylu ei bryderon a mynegi diddordeb mewn siarad mewn cyfarfod y pwyllgor (ni fyddai gwrthwynebydd 'anhysbys' yn gymwys);
· Cynrychiolydd Tref neu Gyngor Cymuned;
· Yr ymgeisydd neu ei asiant/cynghorydd (os yw gwrthwynebydd neu gynghorydd Cyngor y Dref neu'r Gymuned neu gynghorydd y Cyngor Bwrdeistref Sirol nad yw ar y Pwyllgor yn siarad yn erbyn eich cynnig).

Sut rwy'n mynd ati?
Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau a drafodir y cais perthnasol gan y Pwyllgor wrth edrych ar wefan y Cyngor. Er yr anfonir llythyrau hysbysu cyn cyfarfod y Pwyllgor, ni allaf roi sicrwydd i chi y bydd y gwasanaeth post yn effeithlon. Sylwch mai cyfnod byr fydd gennych i gadarnhau eich bod am siarad wedi i chi gael eich hysbysu.

Pryd caf weld adroddiad i Swyddog?
Mae'r adroddiad ar gael i'r cyhoedd ei weld o'r dydd Llun cyn y cyfarfod yn y Swyddfeydd Dinesig, Angel, Pen-y-bont ar Ogwr neu ar y wefan ganlynol: www.bridgend.gov.uk/planning

Sut rwy'n cofrestru bod arnaf eisiau siarad?
Os ydych am gael siarad mewn cyfarfod Pwyllgor, dylech gadarnhau eich diddordeb yn eich sylwadau cyntaf a chynnwys eich rhif ffôn yn ystod y dydd.

Yna, mae rhaid i chi gadarnhau rhwng 11:00am a 11:30am ar y diwrnod cyn cyfarfod y Pwyllgor eich bod yn dal i fwriadu siarad trwy ffonio'r Cabinet a Swyddog y Pwyllgor ar (01656) 643148.

Sut y trefnir i mi siarad?
Os oes mwy nag un gwrthwynebydd wedi cofrestru ei fod am siarad, cânt eu hannog i enwebu un llefarydd, ac un gwrthwynebydd a gaiff siarad ar gyfer pob cais. Gallai hwn fod yn gynrychiolydd y grŵp gweithredu perthnasol, neu'n gynghorydd Cyngor Trefn neu Gymuned neu gynghorydd y Cyngor Bwrdeistref Sirol nad yw'n aelod o'r Pwyllgor hwn. Os na all y gwrthwynebwyr ddod i gytundeb, bydd y Cadeirydd yn rhoi'r amser i'r person gyntaf i gofrestru

bod ganddo ddiddordeb mewn siarad. Bydd Cynghorydd y Cyngor Bwrdeistref Sirol nad yw'n aelod o'r Pwyllgor yn siarad yn gyntaf, ac yna'r gwrthwynebydd.

Sut y bydd y cynllun yn gweithio i Ymgeiswyr/Asiantau?
Pan yw'n hysbys bod gwrthwynebydd wedi cofrestru er mwyn siarad yn erbyn cais, rhydd yr Adran Gynllunio wybod i'r ymgeisydd neu ei asiant. Os yw'r ymgeisydd neu asiant yn dymuno gweithredu ei hawl i ateb, bydd rhaid iddo roi gwybod i swyddog y cabinet a'r pwyllgor ar (01656) 643148 rhwng 11:30am a 12:00pm ar y diwrnod cyn cyfarfod y Pwyllgor.

Ni roddir sicrwydd y gwneir penderfyniad ar gais mewn unrhyw gyfarfod penodol y Pwyllgor na chwaith y caiff gwrthwynebydd siarad, ac yn yr achos hwnnw, ni fydd modd i'r ymgeisydd neu'r asiant siarad chwaith.

Sut bydd y cynllun yn gweithio i'r Cynghorau Tref a Chymuned?
Bydd y Cynghorau Tref a Chymuned yn parhau i dderbyn hysbyson fel ar hyn o bryd, yn rhoi gwybod am bob cais cynllunio yn eu hardal. Os yw'r Cyngor Tref neu Gymuned yn gwrthwynebu unrhyw gais ac yn rhoi gwybod i'r Adran Gynllunio fel y nodir uchod, bydd ganddo hawl i siarad â'r Pwyllgor Rheoli Datblygu.

Am ba hyd y caf siarad?
Bydd cyfyngiad o **dri munud** ar y Gwrthwynebydd, Ymgeisydd, Asiant neu Gynghorydd y Cyngor Bwrdeistref Sirol nad yw'n aelod o'r Pwyllgor nac yn Aelod Cabinet. Cedwir yn dynn at y cyfyngiad hwn.

Ceisiadau Eithriadol
Mewn achos ceisiadau eithriadol, bydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu'n ystyried p'un ai oes angen estyn hawliau siarad y cyhoedd ai peidio.

Os yw aelodau'r Pwyllgor yn cytuno, bydd gan y gwrthwynebwyr a'r ymgeiswyr hyd at 10 munud i siarad â'r Pwyllgor.
Gellir rhannu'r amser hwn rhwng gwahanol wrthwynebwyr neu gynrychiolwyr ar ran yr ymgeisydd. Bydd amser siarad Cynghorwyr y Cyngor Bwrdeistref Sirol nad ydynt yn aelod o'r Pwyllgor a chynrychiolwyr Cyngor Tref neu Gymuned yn parhau i fod yn 3 munud.

Beth y gellir ei ddweud yng nghyfarfod y Pwyllgor?
Dylid cyfyngu sylwadau i'r materion cynllunio perthnasol ac ystyriaethau cynllunio materol sydd eisoes wedi eu crybwyll yn y sylwadau ysgrifenedig. Gallai hyn gynnwys:-
- Polisïau cynllunio, yn cynnwys y rhai yn y Cynllun Datblygu;
- Pryd a gwedd a chymeriad y datblygiad, cynllun a dwysedd;
- Creu traffig, diogelwch ar y briffordd a pharcio;
- Taflu cysgod, trosolwg, sŵn yn tarfu neu unrhyw golli amwynder arall.

Mae materion na ellir eu hystyried gan y Pwyllgor Rheoli Datblygiad yn cynnwys:-
- Anghytuno am ffiniau, cyfamodau a hawliau eiddo eraill;
- Sylwadau personol (e.e. rheswm yr ymgeisydd);
- Hawl ar olygfa neu ddibrisio eiddo posibl.

Ni chaniateir cyflwyno cynlluniau, darluniau nac unrhyw ddeunydd gweledol arall na thynnu lluniau na defnyddio offer recordio llais. Ni chaiff siaradwyr ofyn cwestiynau i eraill yn y cyfarfod ac ni chaiff eraill ofyn cwestiynau i'r siaradwyr ac eithrio pan fo'r Cadeirydd yn dymuno cael eglurhad ar ryw fater penodol a grybwyll y siaradwr.

Pwy arall gaiff siarad?
Swyddogion y Cyngor – er mwyn cyflwyno argymhelliad ar yr adroddiad a rhoi cyngor.
Aelodau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu – er mwyn ystyried a dod i benderfyniad.

Pryd gwneir penderfyniad?
Fel arfer trwy bleidlais fwyafrifol gan Aelodau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu yn syth wedi'r drafodaeth. Weithiau caiff penderfyniad ei ohirio yn aros rhagor o wybodaeth, cynlluniau diwygiedig neu ymweliad safle gan Aelod. Fel arfer, trafodir ceisiadau a ohirir yn y cyfarfod canlynol ac os na chawsoch gyfle i siarad yn y cyfarfod cyntaf, bydd angen i chi ddilyn y weithdrefn uchod i siarad yn y cyfarfod nesaf. Byddwch yn ymwybodol bod yn rhaid i Aelodau'r Pwyllgor bwyso a mesur gwahanol ffactorau i ddod i benderfyniad gwrthrychol am ystyriaethau cynllunio. Os ydynt yn gwrthod cais, yn wahanol i argymhelliad y swyddog, bydd angen iddynt allu cefnogi'r penderfyniad hwnnw mewn unrhyw apêl canlynol.

A gaf i apelio yn erbyn y penderfyniad?
Dim ond os mai chi yw'r ymgeisydd. Nid oes hawliau apelio i drydydd partïon.

Beth sy'n digwydd wedi cyfarfod y Pwyllgor?
Cadarnheir penderfyniad y Pwyllgor Rheoli Datblygu, a'r rhesymau drosto, yn ysgrifenedig wrth yr ymgeiswyr. Fel arfer caiff yr ymgeiswyr (neu eu hasiantau) wybod am y penderfyniad o fewn tri diwrnod gwaith (ac eithrio pan fo Rhwymedigaeth Gynllunio yn berthnasol). Caiff y penderfyniad ei uwchlwytho at y cais ar wefan y cyngor.

Grŵp Datblygu ~ Cyfarwyddiaeth Cymunedau